

**2012 Rhif [ 5 ]**

**DEDDF Y GWASANAETH  
IECHYD GWLADOL (CYMRU)  
2006**

Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd  
Lleol yng Nghymru ac  
Ymddiriedolaeth Gwasanaeth  
Iechyd Gwladol Felindre

*Gwnaed* *13 Chwefror 2012*

*Yn dod i rym* *1 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 12(3), 19(1), 203(9) a 204(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre.

(2) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 1 Mawrth 2012 ac maent yn gymwys i bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru ac i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre(2).

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn, ystyr 'y Canllawiau' (*'the Guidance'*) yw'r Canllawiau ar Werthu sy'n Hybu Iechyd mewn Ysbytai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 23 Chwefror 2012.

---

(1) 2006 p.42.

(2) Sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838).

## **Gwerthu Cynnyrch sy'n Hybu Iechyd mewn Ysbytai**


2. Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre arfer ei swyddogaethau yn unol â'r Canllawiau.

## **Dirymu**


3. Mae'r Cyfarwyddiadau ar Werthu sy'n Hybu Iechyd mewn Ysbytai i Ymddiriedolaethau'r GIG a wnaed gan y Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio, o dan awdurdod Gweinidogion Cymru ar 12 Medi 2008 wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Prif Swyddog Meddygol Cymru



Prif Swyddog Nyrsio Cymru



Dyddiad 13 Chwefror 2012